



CYNGOR TREF  
**AMLWCH**  
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN  
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk  
Ffon/Tel: 01407 832 228

**Cyngor Tref Amlwch Town Council**

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, Gorffennaf 26, 2016 yn Siambr y Cyngor am 7 o'r gloch.  
*Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday 26<sup>th</sup> July 2016 at 7pm.*

**Presennol / Present:** Gareth W Roberts OBE, Meg Roberts, Miriam Sanders, Robert Whitfield, Gordon Warren, John Byast, Helen Hughes, Myrddin Owens, Mike Roberts, Cyng/Cllr Wil Hughes

**Yn bresennol / In attendance:** Carli Evans-Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithu/translation)

**Ymddiheuriadau / Apologies:** Gwynn Jones, Gareth Owen, Cyng/Cllr Aled M Jones, Cyng/Cllr Richard Jones

- 1** Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE. Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod a dymuno gwellhad buan i Gwynn Jones yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty. Cydymdeimlwyd a Myrddin Owens yn dilyn profedigaeth ei chwaer.

*The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE. All were welcomed to the meeting and Gwynn Jones was wished a speedy recovery following a stay at hospital. Members sympathised with Myrddin Owens following the passing of his sister.*

- 2** **Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting**  
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. Cynnig gan John Byast, eilio gan Miriam Sanders.  
*Minutes of the last meeting were approved. Proposed – John Byast, seconded by Miriam Sanders.*

**3** **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

**3.1** **Torri Gwair / Grass Cutting**

Mae'r contractiwr wedi ei benodi ac wedi dechrau ar y gwaith.  
*The contractor has been appointed and has started on the work.*

**3.2** **Fferm Arae Haul / Solar Farm**

Roedd Gareth W Roberts yn datgan diddordeb gan ei fod wedi bod mewn trafodaethau a'r cwmni ac fe adewodd yr ystafell. Cafwyd ddeall bod y Pwyllgor Cynllunio (CSYM) yn trafod y cais cyn diwedd y mis. Yn dilyn trafodaeth, roedd yr aelodau o'r farn bod y datblygiad yn rhy fawr i'r ardal ac fe gynnigwyd bod y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais ac felly yn gefnogol o Gyngor Cymuned Llanbadrig.

Cynnigwyd bod pleidlais gofrestredig i gadarnhau barn yr aelodau. Cynnig Meg Roberts, eilio Myrddin Owens. Roedd penderfyniad unfrydol i wrthwynebu'r datblygiad. Daw Gareth W Roberts yn ol i'r ystafell.

*Gareth W Roberts declared an interest as he has been in discussion with the company and he left the room. It was understood that the Planning Committee (IACC) will be discussing the application before the end of the month. Following a discussion, members were of the opinion that the development was too big for the area and it was proposed that the Council object to the application and thus support Llanbadrig Community Council.*

*A recorded vote was proposed by Meg Roberts and seconded by Myrddin Owens. It was a*

*unanimous decision to object to the development. Gareth W Roberts returned to the room.*

### **3.3 Archwiliad / Audit**

Nid oes diwedadriad gan BDO ynglyn ag archwiliad Amlwch hyd yma. Cadarnhawyd bod y pwynt wedi ei godi yng nghyfarfod diwethaf pwyllgor ardal Un Llais Cymru ynglyn a siom cynghorau lleol bod llywodraeth Cymru yn defnyddio cwmni o tu allan i Gymru i gwblhau'r archwiliadau.

*There is no update as yet from BDO with regard to the Amlwch audit. It was confirmed that the point had been raised at the One Voice Wales area meeting regarding the disappointment that a company from outside Wales had been appointed to complete the audits.*

### **3.4 Swyddfa Bost / Post Office**

Cafwyd gyfarfod positif iawn gyda Spar a'r Swyddfa Bost ac mae trafodaethau yn parhau. Nid oes cytundeb wedi ei arwyddo ar hyn o bryd ac felly mae'n bwysig nad yw'r cyhoedd yn cael eu cam arwain.

*A very positive meeting was held with Spar and the Post Office and discussions are ongoing. No contract has been signed as yet and as such it is important that the public aren't misled in any way.*

### **3.5 Llyfrgell / Library**

Cafwyd gefnogaeth gan y Cynghorau Tref eraill i anfon llythyr i Dr Gwynn Jones, CSYM i ddatgan pryder ynglyn a dyfodol y gwasanaeth a hefyd ynglyn a phryderon am godi trethi lleol hyd at 100% er gwyn diogelu'r gwasanaeth. Nid oes ymateb hyd yma.

*The other Town Councils gave their support to send a letter to Dr Gwynne Jones, IACC, to raise awareness of concerns regarding the future of the library service and also concerns regarding increasing local taxes by up to 100% to safeguard the service. There is no response as yet.*

### **3.6 Ynys Ynni / Energy Island**

Mae dal i ddisgwyl ymateb. Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig bod cynrychiolaeth o'r ardal yma ar y bwrdd gan fod penderfyniadau yn effeithio ar yr ardal.

*There is still no response. Members felt it was important that representatives from this area are on the panel as decisions effect the area.*

### **3.7 Maes Parcio Porth Llechog / Bull Bay Car Park**

Mae ebost wedi ei anfon i CSYM ynglyn a'r maes parcio. Nid oes ymateb hyd yma.

*An email has been sent to IACC regarding the car park. There is no response as yet.*

### **3.8 Meinciau / Benches**

Cadarnhawyd y byddai'r Pwyllgor Parciau a Mannau Agored yn edrych ar osod meinciau ychwanegol fel y trafodwyd yn y cyfarfod cynt. Nodwyd bod angen sylw i waelod mainc ger Craig Ddu.

*It was confirmed that the Parks and Open Spaces committee would look at placing additional benches as discussed at the last meeting. It was noted that the base of a bench near Craig Ddu needed attention.*

### **3.9 Toiledau / Toilets**

Mae peth gwybodaeth ychwanegol wedi dod i law erbyn hyn ond mae angen trafod gwahanol opsiynnau gyda swyddogion CSYM cyn dod i benderfyniad.

*Some additional information has been now been received but there is a need to discuss possible options with IACC Officers before making a decision.*

## **4 Pwyllgorau allannol / External meetings**

Cafwyd grynodedb o gyfarfod pwyllgor ardal Un Llais Cymru gan Meg Roberts. Cafwyd gyflwyniad gan gynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru ac roedd cyfle wedyn i ofyn cwestiynnau.

*Meg Roberts gave an overview of the One Voice Wales area committee meeting. A presentation*

was given by a representative of the Wales Audit Office followed by an opportunity to answer any questions or queries.

## **5 Cynllunio / Planning**

### **5.1 Apel 24 Awelfryn Appeal**

Mae'r datglygwr wedi apelio gan nad oedd penderfyniad wedi ei wneud mewn da bryd. Erbyn hyn mae'r cais wedi ei gymeradwyo fely nid oes angen ymateb. Roedd aelodau yn siomedig bod y cais wedi ei gymeradwyo gan fod cryn gwrthwynebiad wedi bod yn lleol. Teimlwyd nad oedd CSYM yn cymryd sylw o farn cynghorau lleol mewn perthynas a'u pryderon yn ymwneud a cheisiadau cynllunio. Cytuno dod a'r mater i sylw Trefi Mon a Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon.

*The developer has lodged an appeal as no decision was made within the timeframe. The application has by now been approved and as such there is no need to respond. Members were disappointed that the application had been granted as there was considerable objection to the development locally. It was felt that IACC do not take into account the opinions and concerns of local councils when assessing applications. It was agreed to raise the matter with Trefi Mon and the North Anglesey Councils Partnership.*

### **5.2 Penderfyniadau / Decisions**

Cafwyd wybod gan CSYM am eu penderfyniadau diweddaraf gyda'r canlynol wedi eu caniatáu -  
*Members were notified of IACC's recent planning decisions with the following granted permission -*

- 6 ty ger yr Egwyls Gatholig / 6 dwellings adj. to the Catholic Church (11C531E )
- Is-rannu uned diwydiannol / Sub divide unit A&B Safle/Site 7 Parc Busnes Amlwch Business Park (11C195B)
- Dileu amodau / Remove Conditions Old Builders Merchants Yard, Hen ffordd Stesion, Amlwch (11C9H/VAR)

### **5.3 Ceisiadau / Applications**

Dim/None

## **6 Gohebiaeth / Correspondence**

### **6.1 Clwb Cinio Amlwch Lunch Club**

Daw cais am gymorth ariannol tuag at weithgareddau'r clwb sydd yn dathlu 12 mlynedd eleni. Cytuno cyfrannu £200 ar yr amod bod cyfrifon y clwb yn cael eu cyflwyno i'r Swyddfa.

*A request from the club for financial assistance towards club activities. The club is celebrating its 12<sup>th</sup> anniversary. Agreed to contribute £200 on the condition that the group present their latest accounts to the office.*

### **6.2 Gwahardd Traffig / Road Closure**

Bydd CSYM yn cau rhannau o Gallt Ednyfed er mwyn cwblhau gwaith cynnal a chadw ar y ffordd. IACC will be closing parts of Ednyfed Hill in order to complete resurfacing works.

### **6.3 Grid Cenedlaethol / National Grid**

Cylchlythyr diweddaraf er gwybodaeth / latest newsletter for information.

## **7 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**

### **7.1 Cystadleuaeth Garddio / Gardening Competition**

Yn anffodus mae'r gystadleuaeth wedi ei ganslo gan ddiffyg cefnogaeth. Cytuno i'r Pwyllgor Parciau a Mannau Agored drafod ymhellach ac ail-lansio'r gystadleuaeth ar newydd wedd y flwyddyn nesaf.

*Unfortunately the competition has had to be cancelled this year due to lack of support. Agreed for the Parks and Open Spaces committee to discuss further and re-launch the competition in a revised format next year.*

### **7.2 Fideo Ombudsmon / Ombudsmon Video**

Daw fideo gan adain gyfreithiol CSYM yn gofyn i'r holl aelodau wyllo fideo gan yr ombudsmon. Cadarnhawyd bod yr ebost wedi ei hanfon at yr holl aelodau ac fe gadarnhawyd hwythau eu bod wedi ei wyllo.

*The IACC legal department have sent an email asking that the members watch a video from the ombudsman. It was confirmed that the email had been forwarded to all members and those present confirmed that they had seen it.*

### **7.3 Rheoliadau Ariannol / Financial Regulations**

Cytuno anfon copi o'r rheoliadau (model) i'r holl aelodau cyn gynted a phosib a chynnal cyfarfod arbennig ym mis Awst i'w trafod ymhellach.

*Agreed to send out a copy of the regulations (model) to all members as soon as possible and hold a special meeting in August to discuss further.*

### **8 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting**

Bydd cyfarfod arbennig i drafod Rheoliadau Ariannol y Cyngor nos Fawrth Awst 23 2016. Bydd y cyfarfod cyffredin nesaf i'w gynnal nos Fawrth Medi 27, 2016.

*There will be a special meeting to discuss the Council's Financial Regulations Tuesday August 23, 2016. The next ordinary meeting will be held on Tuesday September 27 2016.*

### **9 Ymddiriedolaeth Treftadaeth Diwydiannol Amlwch Industrial Heritage Trust**

Gwahoddwyd yr aelodau i ymweld a'r Ddeyrnas Gopr ym Mhorth Amlwch i drafod gweithgareddau a datblygiadau diweddaraf yr ymddiriedolaeth. Nodwyd bod prosiect Bws Treftadaeth Gogledd Ddwyrain Mon yn datblygu fel cynllun peilot mewn partneriaeth a'r Cyngor Tref, Menter Mon a chymunedau Cemaes a Moelfre. Gobeithir lansio'r bws ddechrau mis Awst am gyfnod o 6 wythnos.

*Members of the Council were invited to visit the Copper Kingdom at Amlwch Port to discuss the Trust's latest activities and developments. It was noted that the North East Anglesey Heritage Tour Bus project was developing as a pilot project in partnership with the Town Council, Menter Mon and the communities of Cemaes and Moelfre. It is hoped to launch the bus in early August to run for 6 weeks.*

Bu'r cyfarfod orffen am 21.00. / *The meeting closed at 21.00.*

CET07/2016